

ARWEINYDDIAETH YM MAES DIOGELU LEDLED CYMRU

PAPUR BRIFFIO

EBRILL 2017

Mae'r papur briffio hwn yn deillio o'r Uwchgynhadledd Arweinyddiaeth ym maes Diogelu a gynhaliwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar 21 Mawrth 2017, a luniwyd ac a hwyluswyd gan Simon Burch. Mae'n seiliedig ar nodiadau a baratowyd gan Lisa Griffiths, Keith Towler, Jan Pickles a Margaret Flynn. Yr ysgogiad ar gyfer yr Uwchgynhadledd oedd y cwestiwn: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth ym maes diogelu ledled Cymru?

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn derbyn bod arweinyddiaeth ym maes diogelu wedi'i dosbarthu ymysg unigolion sy'n cynnwys pobl â phrofiad o wasanaethau diogelu, a'u perthnasau. Mae hefyd wedi'i dosbarthu yn wleidyddol, ac yn gorfforaethol, mewn ystod amrywiol o sectorau ac ar draws y sectorau hynny. Mae'r broses o nodi tir cyffredin ym maes diogelu ar draws Llywodraeth Cymru ac ystod o sefydliadau sydd â gwahanol rwymedigaethau, pwerau a dyletswyddau'n amlygu pwysigrwydd pennu cyfeiriad cyffredin ac atebolrwydd i ni i gyd.

Y prif faterion a'r prif gwestiynau ym maes diogelu

Dechreuodd y digwyddiad trwy nodi'r "prif faterion" sy'n wynebu arweinwyr ym maes diogelu ledled Cymru. Mae'r clystyrau canlynol o faterion yn ategu ac yn ymestyn yr ymgynghoriad â Chadeiryddion Byrddau Diogelu ac arweinwyr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a gynhaliwyd yn ystod mis Awst 2016.¹

Gwerthoedd a gweledigaeth a rennir a diben cyffredin – a oes tystiolaeth o hyn ar draws y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Iechyd?

Mae galw sy'n cynyddu ac adnoddau sy'n prnhau yn peryglu'r gallu i lunio **diwylliant ymarfer effeithiol i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion**. Er enghraifft, mae'r heddlu yn ei chael hi'n anodd bodloni terfynau amser; mae strwythurau sefydliadol a meddylfryd ynysig, a'r ffaith nad oes iaith gyffredin yn bod, yn effeithio ar ddulliau ymarfer. Mae'r heriau sy'n ymwneud â gweithio ar draws sectorau'n cynnwys y gwrthdaro rhwng nodau sefydliadau unigol a nodau Byrddau Rhanbarthol ac anghyfartalwch neu gryfderau anghyfartal cyfranogwyr y Byrddau. Nid yw'r bobl sy'n hysbys i wasanaethau, a'u teuluoedd, o reidrwydd yn deall y jargon a'r termau sy'n gysylltiedig â "diogelu", megis "POVAs" a "throthwyon" (nad ydynt yn ymddangos yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), "achosion wedi'u cau" ac "eiriolaeth".

¹ Gweler Atodiad 1 Adroddiad Blynyddol cyntaf y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, 2016-17

Mae gan Fyrddau Diogelu wendidau sy'n cynnwys pa mor agored ac addasol y mae Byrddau i brofiad a "lleisiau" pobl sy'n dod yn hysbys i wasanaethau diogelu; amlygrwydd risg a rheoli risg ar bob lefel (mae pob un ohonom yn ymgymryd ag asesiadau risg ond nid ydym yn eu rhannu); y pellter sy'n bodoli rhwng gwaith caffael a phryderon ynghylch diogelu; diffyg sicrwydd ynghylch diogelwch; y rhagdybiaeth bod pob sector perthnasol wedi'i gynrychioli'n ddigonol (mae ymwneud y trydydd sector ar lefel Byrddau yn anghyson ar draws Cymru); y ffaith bod y bobl sy'n mynychu cyfarfodydd yn newid o hyd; uwch-reolwyr yn anfon is-reolwyr gweithredol i ddirprwyo ar eu rhan mewn cyfarfodydd; y gwahaniaeth rhwng y ffactorau sy'n peri i ymarferwyr iechyd ac ymarferwyr gofal cymdeithasol atgyfeirio oedolion at ddibenion diogelu (yng nghyswllt gwasanaethau iechyd meddwl yn benodol); y pellter rhwng aelodau Byrddau ac ymarfer diogelu; parodrwydd i rannu gwybodaeth ar lefel weithredol – gan gynnwys gwybodaeth nad yw'n wybodaeth ffeithiol; disgresiwn gweinyddol arweinwyr ar draws sectorau wrth weithredu a hybu ymarfer diogelu; honiadau a rhagdybiaethau heb eu cadarnhau ynghylch "penderfyniadau annoeth" oedolion; rolau asiantaethau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar Fyrddau Rhanbarthol e.e. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, AGGCC ac AGIC; cydnabod nad ydym yn gwneud pethau'n iawn bob tro a'n bod yn ofni bod yn onest ynghylch ein camgymeriadau wrth fynd i'r afael â chymhlethdodau gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu niweidio neu'u hesgeuluso;² y cwestiynau: Ble mae'r gweithgareddau atal? Beth yw nodweddion ymateb effeithiol o ran diogelu? Pa mor agos yw'r cysylltiad rhwng ein ymarfer diogelu ac atal neu leihau niwed?

Mae'r ffaith bod **diogelu yn ehangu'n ddirwystr** yn golygu bod a wnelo â diogelwch ar-lein, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl, plant "coll", hunanesgeuluso, hunan-niweidio, trais domestig ac argyfyngau iechyd meddwl. At hynny, mae pryderon ynghylch diogelu'n ymwneud â'r sawl nad ydym yn ymwybodol ohonynt am eu bod yn cael eu haddysgu gartref neu mewn lleoliad amgen, neu'r sawl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a/neu sy'n byw mewn lleoliadau grŵp yng Nghymru a thu hwnt. Mae rolau ymarferwyr sy'n adolygu cynlluniau gofal pobl, rolau rhieni corfforaethol a rolau teuluoedd sy'n darparu gofal ar draws cenedlaethau, a'u persbectif hirdymor a'u hymwneud â gwasanaethau, yn annelwig; ac er bod llawer o strategaethau'n bodoli, ynghyd â llawer o ddisgwyliadau, mae adnabod y blaenoriaethau'n waith anodd!

Mae angen o hyd nodi **deilliannau a mesurau perfformiad a rennir** er mwyn i ni allu mesur effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac amseroldeb ein hymyriadau diogelu. Prin y gellir gweld yr "arfer da" a'r arfer sy'n dod i'r amlwg – er enghraifft, mae modelau cyfiawnder adferol yn dod i'r amlwg ac mae angen eu hystyried yn ofalus. Fodd bynnag, mae'n rhaid wrth **amser a myfyrio** i fynd ati gyda'n gilydd i archwilio penderfyniadau a'u cyd-destun, rhoi cynnig ar syniadau, mynd y tu hwnt i strwythurau ein gwasanaethau a nodi mesurau perfformiad a rennir.

Y cyfleoedd

Cafodd y pwyntiau canlynol eu nodi wrth feddwl am y cyfleoedd o ran ymarfer diogelu:

Y **cefnidir deddfwriaethol ffafriol** o safbwynt creu diwylliant ymarfer sy'n seiliedig ar gydweithredu – bwriad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella

² Gweler <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-39354451> (cyrchwyd 31 Mawrth 2017)

lles pob dinesydd trwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar; adrodd ynghylch plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu niweidio; ystyried anghenion hirdymor cymunedau; a gwella ymateb y sector cyhoeddus i drais sy'n seiliedig ar rywedd.

Mae'r ffaith bod Cymru yn **wlad fach** yn golygu ei bod yn bosibl llywio disgrisiwn, cyfrifoldeb ac atebolrwydd y sawl sy'n dal swyddi cyhoeddus ar draws sectorau, gan gynnwys y sector addysg. Mae gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddigwyddiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn hanfodol o safbwynt deall arwyddocâd **gwaith atal a gwytnwch**; mae i ni fudd o sicrhau bod cyd-ddysgu'n digwydd ym maes iechyd meddwl; ac mae diweddarau'r polisi a'r gweithdrefnau "Mewn Dwylo Diogel" a drafftio'r canllawiau statudol "Ymdrin ag Achosion Unigol" yn fodd i feithrin cydeglurder a chydymddiriedaeth ar draws sectorau.

Mae Byrddau Rhanbarthol yn cyfrannu doniau, awdurdod ac adnoddau amrywiol. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i'r ansicrwydd ynghylch **cyfraniad pob asiantaeth at ddiogelu**, er enghraifft, "ceir ansicrwydd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu mewn byrddau iechyd ...maent yn gwneud fel y mynnont heb sylweddoli bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn berthnasol iddyn nhw!"

Mae lle i **rannu data a gwybodaeth** a cheisio deall hyn fesul Rhanbarth. Er enghraifft, gellid dadlau bod mwy i'w ddysgu oddi wrth (i) Swyddogion Tai (sy'n ymwybodol o amgylchiadau tenantiaid y mae angen cymorth arnynt) nag o ystyried nifer yr atgyfeiriadau at ddibenion diogelu fesul ardal (ii) trafodaethau a gynhelir pan fydd gwasanaethau'n dod i gysylltiad â'i gilydd, a (iii) amau'r achos dros gynnal adolygiadau cyffelyb, ac weithiau mwy nag un adolygiad.

Er mwyn gweithio'n dda, dylai arweinwyr ac ymarferwyr ym maes diogelu ddangos **creadigrwydd a pharodrwydd i fachu ar gyfleoedd** er mwyn rhoi amser i bobl ddatblygu syniadau, myfyrio yn eu cylch a rhoi cynnig ar ddulliau gweithredu neu'u hadolygu – er enghraifft, mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gweithredu'r dull Arwyddion Diogelwch;³ mae "Reflect" yn ddull a gaiff ei weithredu gan Barnardo's ac ar draws Gwent, sy'n darparu cymorth un i un i famau ifanc y mae eu plant wedi'u cymryd oddi arnynt;⁴ mae Cymru yn arloesi gyda'i Rhaglen Trawsnewid System Anghenion Dysgu Ychwanegol;⁵ mae cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu yng Nghymru;⁶ mae'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi bod y gwaith ar ddigwyddiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn her sy'n dylanwadu ar ei rhaglen waith; mae rhai Byrddau Rhanbarthol yn hybu fforymau i ymarferwyr; ac mae Bro Morgannwg wedi creu Caffi Arweinyddiaeth arobryn.⁷

Mae'n rhaid i brofiad y sawl sy'n hysbys i ymarferwyr diogelu ac i ymarfer diogelu fod yn fwy amlwg yn ein gwaith, gan fod y **syniadau gorau yn dod oddi wrth gyfranogion**. Nid pawb sy'n gallu eiriol drosto'i hun ond dylai gofalwyr maeth ac athrawon, a'r sawl sy'n ymwneud â'r "tîm o amgylch y

³ www.signsofsafety.net/wp-content/uploads/2013/11/Review-of-Signs-of-Safety-February-2014.pdf (cyrchwyd 2 Ebrill 2017)

⁴ <http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/2017/03/23/launch-of-the-gwent-reflect-project/> (cyrchwyd 2 Ebrill 2017)

⁵

<http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/?lang=cy> (cyrchwyd 2 Ebrill 2017)

⁶

<http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=cy> (cyrchwyd 3 Ebrill 2017)

⁷http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/press_and_communications/latest_news/2016/November-2016/Leadership-Cafe-leads-the-way-for-the-Vale-of-Glamorgan-Council.aspx (cyrchwyd 3 Ebrill 2017)

teulu” a gwasanaethau gyrfaedd er enghraifft, fod yn cyfrannu at ymdrechion i ddeall profiad plant a phobl ifanc. Rydym yn disgwyl o hyd am ddarlun o'r tir cyffredin rhwng eiriolaeth ac ymarfer diogelu, ym maes diogelu oedolion yn fwyaf penodol.

A oes modd i ni sicrhau bod ein **hadolygiadau ymarfer** yn ystyried digonolrwydd ymarfer diogelu? Mae nodi'r camau atal a fyddai wedi bod o gymorth yn hanfodol o safbwynt datblygu dulliau ymarfer gwell. Mae'r adolygiadau yn gwireddu'r bwriad i gynnwys teuluoedd mewn modd nas gwelwyd yng nghyswllt Adolygiadau Achos Difrifol. At hynny, maent yn ategu'r achos dros symud gwaith comisiynu a rheoli tuag at hybu a hyrwyddo **ymarfer myfyriol**. Rydym yn awyddus i greu llinell rhwng ailysgrifennu polisiâu a strategaethau a llunio templedi pan fydd pethau'n mynd o chwith a bod yn onest ynghylch camgymeriadau ac achosion fu bron â digwydd, er mwyn dysgu oddi wrthynt.⁸ Gallwn wneud amgenach pethau na chodi sgwarnogod biwrocraidd di-fudd a mynd ar eu trywydd!

Mwy o themâu a chwestiynau

Cadarnhaodd ymarfer dadansoddi materion a chyfleoedd bwysigrwydd defnyddio ein hadnoddau cyfun yn y modd mwyaf effeithiol posibl. Nododd yr ymarfer y themâu canlynol hefyd:

1) Llais

Yn 2014, galwodd Comisiynydd Plant Cymru ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu model cenedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol.⁹ Mae “Lleisiau Coll: Yr Hawl i Gael eu Clywed” yn seiliedig ar Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, hynny yw parchu safbwyntiau'r plentyn. Mae'r Confensiwn yn annog oedolion i wrando ar blant a'u cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n cydnabod y dylai lefel cyfranogiad plant adlewyrchu eu hoed a'u haeddfedrwydd ac y dylid rhoi mwy o bwys ar safbwyntiau pobl ifanc yn eu harddegau nag ar safbwyntiau plant dosbarth meithrin, er enghraifft. Caiff y gofyniad i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth i blant ac oedolion ei sefydlu yn Adrannau 181-183 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r cefndir yn wahanol ar gyfer oedolion. Er bod Erthygl 6 Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r hawl iddynt gael eu clywed, nid yw ymarferwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi manteisio ar hynny. Gellir defnyddio iechyd meddwl pobl, eu gallu meddyliol, y ffaith bod ganddynt awtistiaeth a/neu allu cyfyngedig i'w mynegi eu hunain, er enghraifft, fel rheswm dros roi llai o bwys ar y dasg o gasglu eu safbwyntiau.

Fel manau cychwyn mae digwyddiadau ymgynghori, cwynion a chymau gweithredu sy'n codi o gwynion yn cyfleu rhywfaint o brofiad pobl o gael gwasanaethau. Yn yr un modd mae sylw bwriadol sy'n canolbwyntio ar brofiad staff o ddarparu gwasanaethau, trwy arolygon a digwyddiadau adborth, yn eu cynnwys yn y gwaith o nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Beth mae gwasanaethau yn ei wneud i alluogi gweithwyr i “wneud y peth iawn?”. Heb barodrwydd parhaus i ymgyfarwyddo â bywyd ac amgylchiadau pobl sy'n cael gwasanaethau, ac amgylchiadau gweithwyr, bydd y status quo yn parhau.

Er mai prin yw'r dystiolaeth uniongyrchol a gafwyd gan bobl sydd â nam ar eu synhwyrau, awtistiaeth, anabledau dysgu, problemau iechyd meddwl a dementia, er enghraifft, mae eu teuluoedd, eiriolwyr a gwasanaethau'n chwarae rhan sylweddol o safbwynt eu cynorthwyo. Mae technoleg yn golygu bod modd adrodd straeon digidol. Mae cryn dipyn y gellir ei wneud i ddysgu o'r

⁸ Gweler, er enghraifft, Marsh, H. (2014) *Do no harm: Stories of Life, Death and Brain Surgery* London: Phoenix
⁹ http://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/MV_FINAL_W.pdf (cyrchwyd 5 Ebrill 2017)

dulliau creadigol a ddefnyddir ar hyn o bryd, ac addasu'r dulliau hynny. Mae adrodd straeon am ein bywydau yn cynnig rhyddhad ac yn rhoi gobaith i ni ar gyfer y dyfodol.

Mae twf eiriolaeth yn dangos symudiad cyson tuag at sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed. Gan nad oes digon o weithwyr proffesiynol ar gael i fuddsoddi amser mewn gwrando'n astud ar bobl, mae eiriolaeth broffesiynol yn adnodd ategol. Nid yw'r enghreifftiau gobeithiol a'r enghreifftiau sy'n dod i'r amlwg yn bychanu rôl gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol o ran eiriolaeth.

Gall Byrddau Diogelu ddarparu arweiniad pwrpasol ynghylch sicrhau bod lleisiau a phrofiad pobl yn nodi cyfleoedd i wneud cynnydd. Gallai trafodaethau ynghylch adolygiadau ymarfer fod yn elfen gyfyng o hynny. Gallai elfennau mwy eang gynnwys digwyddiadau dysgu cynhwysol, hyrwyddo fforymau dysgu i ymarferwyr a hyrwyddo byrddau diogelu iau, pwysu a mesur pryd i holi pobl ynghylch eu profiad o ymyriadau penodol a rhoi adroddiad i'r Bwrdd yn eu cylch, er enghraifft. Gallai cwestiynau sy'n cadarnhau bod y Bwrdd yn agored i brofiad a gwybodaeth gynnwys: A oedd yr ymyriadau'n fuddiol? A oeddent wedi galluogi pobl i oresgyn argyfwng? A gawsant ofal boddhaol ac ystyriol?

Mae gormod o oedolion yn sôn eu bod wedi ceisio dweud wrth bobl eu bod yn cael eu niweidio pan oeddent yn blant. Sut yr ydym yn sicrhau ein bod, gyda'n gilydd, yn gwrando? A fyddem wedi gweithredu pe bai'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi dod o ffynhonnell arall?

2) Newid diwylliant

Mae'r gorffennol o safbwynt diogelu yng Nghymru yn flêr, ac mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r rheoliadau statudol yn sgîl y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ein galluogi i fwrw ymlaen gystal ag y gallwn. Y gwaddol a gawsom yw dibyniaeth ar bolisiau a gweithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion; adolygiadau achos difrifol; adolygiadau ymarfer; adolygiadau a gomisiynwyd gan Weinidogion; ac erlyniadau llwyddiannus. Mae'r rhain i gyd yn ein cymell i ddysgu!

Mae agweddau eraill a fydd yn sbarduno "newid diwylliant" yng Nghymru yn dechrau gyda dysgu o ymgynghoriadau megis "Ein hiechyd, ein gwasanaeth iechyd;"¹⁰ mae eraill yn cynnwys gwaith y Bwrdd Cenedlaethol, y Byrddau Rhanbarthol, a'r Comisiynwyr Plant, Pobl Hŷn, Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Gymraeg. At hynny, ceir hyrwyddwyr diogelu mewn awdurdodau lleol ac arweinwyr ysbrydoledig ym maes addysg, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant a BAWSO¹¹, er enghraifft. Mae adolygiad Donaldson¹² o'r cwricwlwm i ysgolion yn gyfraniad pwysig at sicrhau bod pobl ifanc yn anelu at gael cydberthnasau iach, gwaith sy'n rhoi boddhad a chyfle i ymwneud â'u cymuned. Dyma wreiddiau gwytnwch.

Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn angenrheidiol ar gyfer rhai swyddi: gweithio gyda phlant, mabwysiadu a maethu a gweithio ym maes gofal iechyd. Fodd bynnag, ceir

¹⁰ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/papur-gwyrdd-ein-hiechyd-ein-gwasanaeth-iechyd> (cyrchwyd 31 Mawrth 2017)

¹¹ Mudiad gwirfoddol sy'n gweithio ar draws Cymru gyfan ac sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i'r sawl sydd wedi dioddef pob math o drais

¹² *Dyfodol Llwyddiannus – Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* <http://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/wcee/successful-futures.pdf> (cyrchwyd 6 Ebrill 2017)

pryder bod gwiriadau o'r fath yn cyfyngu ar gyfleoedd i blant ac oedolion y mae angen cymorth arnynt. Yn nes at adref, mae gyrwyr tacsï yn y gogledd ac yn Abertawe yn cael hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o faterion diogelu sylfaenol. Mae ffi drwyddedu ratach yn gymhelliant iddynt wneud hynny ac mae'r manteision yn cynnwys gweithlu sy'n ychwanegu at wybodaeth yr heddlu am fasnachu pobl ac am blant coll. Mae arfer ardderchog o'r fath yn hollbwysig i waith pob dydd ymarferwyr ar draws sectorau. Gall gweithluoedd eraill gael effaith debyg ar amddiffyn plant ac oedolion.

Beth yr ydym yn ei gyflawni i'w gwneud yn hawdd i ymarferwyr wneud y peth iawn? Mae i chwythu'r chwiban gysylltiadau negyddol. Gellid dadlau bod gorfodaeth i adrodd ynghylch ymddygiad amheus (*the mandatory reporting of questionable behaviour*)¹³ yn enghraifft ddealladwy o'r ddyletswydd i adrodd.

Mae'n ddigon hawdd gwneud gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr yn destun dicter cyhoeddus yn y cyfryngau pan gaiff plant ac oedolion eu niweidio - hyd yn oed pan fo'r unigolion dan sylw'n hysbys i weithwyr proffesiynol eraill. Mae bwrw bai'n anghymesur fel hyn yn effeithio ar barodrwydd pob gweithiwr proffesiynol i gydnabod beiau yn eu proses gwneud penderfyniadau - sydd fel rheol yn gymhleth ac yn peri gofid. Er mai newydd gael eu sefydlu y mae'r Byrddau Rhanbarthol, mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae, ochr yn ochr ag aelodau awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r heddlu, o safbwynt goruchwyllo a sicrhau atebolrwydd am gamau gweithredu. Mae'n mynnu llawer iawn o onestrwydd a chywirdeb, a gwerthoedd ac iaith a rennir.

3) Ymarfer a strategaeth

Bydd ein gallu i ddatrys problemau yn cael ei beryglu oni bai ein bod yn sylweddoli'n llawn yr heriau sy'n ein hwynebu. Mae hanes yn bwysig a rhaid i ni ddeall gwreiddiau'r hyn sydd ar waith, oherwydd mae'n bosibl nad oes sail resymegol mwyach dros y dulliau ymarfer sydd wedi ennill eu plwyf, a hwyrach eu bod hyd yn oed yn anghyfreithlon. Nid yw mantrâu ynghylch partneriaeth a chyfrifoldeb pawb yn ddigon. Mae gan wahanol sefydliadau wahanol nodau ac mae'n rhaid tynnu'r rhain ynghyd. Yn olaf, roedd un her a nodwyd yn yr uwchgyhadledd yn ymwneud â gwybodaeth: "Does bosibl na ddylai rhannu data a gwybodaeth - hyd yn oed rhwng gwasanaethau plant ac oedolion - fod yn cefnogi barn broffesiynol yn hytrach na'i thanseilio."

Mae pobl mewn rolau arwain yn gwneud gwahaniaeth. Maent yn achosi newid mewn ymddygiad, na fyddai'n digwydd heb eu camau gweithredu nhw. Yng Nghymru, ceir nifer o gyfleoedd i arwain ym maes diogelu ar draws pob ystod oedran. Cafodd yr holl asiantaethau a fu'n gysylltiedig ag Ymgyrch Jasmine Heddlu Gwent eu tynnu ynghyd gan AGGCC - a gwahoddwyd pob un i egluro ei dyletswyddau a'i phwerau. Mae dealltwriaeth o'r fath yn amhrisiadwy i ymarfer diogelu.

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

6 Ebrill 2017

¹³ Gweler Davies, H (2014) Final report: Southbank International School *Independent review arising from the conduct of William Vahey* http://mandatenow.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/27_11_14_vahey.pdf (cyrchwyd 6 Ebrill 2017)